

Cyngor Tref Criccieth

COPI DRAFFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 7.00y.h. NOS LUN 12
HYDREF 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD FAWR,CRICCIETH

Gweddi Agoriadol

.....
Cymerwyd y Weddi gan y Cyng. Elisabeth George.

Cof;-0110/15 Presennol.

.....
Cadeirydd Cyng. W A Evans,
Is Gadeirydd Cyng. R Cadwalader
Cyng. Sian Williams.
Cyng. Elisabeth Regan
Cyng. Eirwyn Williams,
Cyng. Dr E Tudor Jones.
Cyng. Elisabeth George.
Cyng. Wayne Roberts,
Cyng. Phil Jones
Cyng. Henry Jones
Cyng. R T Price.

Cof;--210/15 Ymddiheuriadau

.....
Cyng. Dafydd Lloyd.

Cof;-0310/15 Datgan Diddordeb.

.....
Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd ar y rhaglen ac i'w trafod yn y cyfarfod.

Cof;-0410/15 Cadarnhau Cofnodion Mis Medi.

.....
Cadarnhawyd cofnodion Mis Medi fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol a'r gyfraith.

Cof;-0510/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

Cyngor Tref Criccieth

.....
Nid oedd unrhyw fater yn codi.

Cof;-0610/15 Ceisiadau Cynllunio.
.....

- a) Cais C15/0963/35/LL
Cais i godi ty newydd ,creu mynedfa gerbydol newydd a chodi adeilad gardd
Tir cyfochrog a Dulais, Lon Ednyfed.

PENDERFYNIAD;-Gwrthwynebu gan nad yw'r dyluniad yn gweddu i'r ardal.

(Ni fu i'r Cyng. Eirwyn Williams yr Aelod lleol ar Gyngor Gwynedd gymryd rhan yn y drafodaeth, y penderfyniad na phleidleisio ar y cais)

Cof;-07101/5 Darn tir gwyrdd ger y Stesion.
.....

Derbyniwyd oddi wrth Gyngor Gwynedd gopi o les a fwriedir ei gynnig i berson busnes yn y stryd, ond yn awyddus i gael sylwadau'r Cyngor Tref arni cyn ei anfon ymlaen i'w arwyddo.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr argymhellion yn y les a'i adolygu mewn blwyddyn yn y cyfamser tynnu sylw Cyngor Gwynedd fod angen cymal ynddi i alluogi'r cyhoedd ddefnyddio'r tir yn ddi rwystr ar gyfer hamddena.

Cof;-0910/15 Gwastraff anghyfreithlon yn Arosfa Caerdyni.
.....

Adroddwyd gan Aelod ei fod wedi derbyn cwyn gan y tir feddiannwr fod ysbwriel yn cael ei luchio i'r cae o'r Arosfa a'i fod yn gorfod ei glirio o leiaf unwaith pob wythnos, ac mae yn teimlo nad yw hyn yn deg iawn iddo.

PENDERFYNIAD;- Anfon at Gyngor Gwynedd i dynnu ei sylw i'r mater a gofyn iddynt leoli bin ysbwriel yn yr arosfa.

Cof;-1010/15 Biniau Halen
.....

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd yn egluro nad yw darparu na llenwi biniau halen yn gyfrifoldeb statudol arnynt ac felly o 1 Ebrill 2016 ni fyddant yn parhau a'r rhaglen yma, ond mae cynnig i'r Cyngor Tef gymryd y cyfrifoldeb trosodd ac amcangyfrifir y gost i'r Cyngor fyddai £156.00 am lenwi bob tro y bydd angen hynny yn £156.00.Os bydd angen bin newydd cost honno fydd tua £218.00 wedi ei gosod a'i ail lenwi.
Un bin sydd gan y Cyngor Tref sef ar y ffordd rhwng Cae Genwllian a'r grid gwartheg lôn Braich Saint.

PENDERFYNIAD;- Barn yr Aelodau yw fod y bin yng nghymuned Dobenmaen ac felly hysbysu Cyngor Gwynedd o hynny.

Cyngor Tref Criccieth

Cof;- 1110/15 Rhoi'r teitl "Unrhyw fater arall" ar y rhaglen.

.....
Eglurodd y Clerc mai ond ar faterion a restrwyd ar y rhaglen mae hawl i wneud penderfyniadau, Ni chaniateir cynnwys eitemau fel *unrhyw fater arall" neu faterion sydd yn codi o'r cofnodion blaenorol neu ohebiaeth*"(oni bai yn y ddau achos diwethaf, bod yr eitemau wedi ei rhestru yn unigol) gan nad yw'r eitemau hynny yn nodi'r materion a fwriedir eu trafod ac felly ni chaniateir gwneud penderfyniad arnynt. Yn wir mae eitemau fel hyn yn tueddu i guddio materion y bwriedir ei drafod, Mae gan y Cyngorwyr ac aelodau'r cyhoedd hawl i wybod ymlaen llaw pa faterion a drafodir.

PENDERFYNIAD;-Derbyn eglurhad y Clerc.

Yn Gaeedig.

Cof;-1210/15 Clerc newydd i'r Cyngor Tref.

.....
Adroddodd y Clerc fod mwy nac un cais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

PENDERFYNIAD;- Y pwyllgor penodi drefnu dyddiad ac amser ar gyfer cyfweiliadau ac adrodd yn ôl i gyfarfod llawn o'r Cyngor ar ei argymhellion

Aeth y Cyngor yn ôl yn agored..

Cof;-1310/15 Derbyniadau.

.....
Dim derbyniadau i law.

Cof;-1410/15 Taliadau.

.....
£98.00 Cyllid y Wlad (PAYE) 100969
£89.28 Cambrian News – Hysbyseb 100970

PENDERFYNIAD;- Rhoi hawl i'r Clerc dalu yr oll o'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Lun 9 Tachwedd 2015.

Cyngor Tref Criccieth

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 30 Hydref 2015.